Hawdd ei Ddeall

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Newidiadau

Beth rydyn ni yn ei wneud pan fydd iechyd a gofal cymdeithasol yn newid

Mae'r llyfryn yma wedi cael ei ysgrifennu gan **Llais**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ein rôl pan gynigir newidiadau i iechyd a gofal cymdeithasol**'.

Rhagfyr 2023

Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Dyma lyfryn hawdd ei ddeall. Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llais**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: www.llaiscymru.org

Ebost: enquiries@llaiscymru.org

Ffôn: 02920 235 558

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247.

Cynnwys

Amdanom ni **4**

Pryd mae iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu newid **6**

Beth rydyn ni'n ei wneud ar ôl i chi rannu beth rydych chi'n feddwl... 8

Mwy o wybodaeth **11**

Timau Llais Lleol 12

Amdanom ni

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llais wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru.

Ein gwaith ni ydy gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn gallu dweud eu dweud am:

- gwasanaethau iechyd
- a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Fe ddylai pobl gael y gwasanaethau hyn mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

Rydyn ni yn gwneud yn siŵr bod y bobl sy'n cynllunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gwybod beth rydych chi'n feddwl.

Rydym yn gwrando arnoch ac yn siarad â'r GIG a gweithwyr gofal cymdeithasol lleol. Bydd hyn yn eu helpu i ddarparu gwasanaethau gwell i chi.

Gan ein bod ni'n cael ein sefydlu gan y gyfraith, rhaid i'r GIG a chynghorau wrando arnom ni.

Rydyn yn yn gwneud yn siŵr eu bod yn clywed beth rydych chi'n feddwl pan fyddan nhw am newid rhywbeth.

Pryd mae iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu newid

Pan fydd y GIG a chynghorau yn cynllunio neu'n newid gwasanaethau, mae'n rhaid iddyn nhw ofyn i bobl beth maen nhw ei eisiau a'i angen.

Rhaid iddyn nhw hefyd ddweud wrthyn ni pryd maen nhw'n bwriadu newid gwasanaethau sy'n effeithio ar bobl.

Ein gwaith ni ydy helpu i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gwrando arnoch chi ac yn meddwl am beth rydych chi'n ei ddweud.

Rydyn ni'n gofyn i'r GIG neu'r cyngor ddweud wrthyn ni:

- Pam maen nhw eisiau newid pethau
- Beth fydd yn well i bobl ar ôl y newidiadau
- Ar bwy fydd y newidiadau yn effeithio
- Faint fyddan nhw'n ei wario

Rydyn ni yn edrych ar sut y bydd y GIG neu'r cyngor yn dweud wrth bobl am eu syniadau. Rydyn ni yn darganfod sut y gallwch chi rannu beth rydych chi'n feddwl neu ofyn cwestiynau.

Beth rydyn ni'n ei wneud ar ôl i chi rannu beth rydych chi'n feddwl

Rydyn ni yn gwrando ar beth mae pobl wedi'i ddweud ac yn gwneud yn siŵr bod y GIG neu'r cyngor yn:

- Meddwl am beth mae pawb wedi'i ddweud.

- Newid ei gynlluniau os oes angen oherwydd beth mae pobl wedi'i ddweud.

- Ateb y cwestiynau a'r pryderon sydd gan bobl.

Rydyn ni yn meddwl am:

- Sut y bydd y newidiadau yn effeithio ar wahanol bobl a lleoedd.

- Sut y byddan nhw yn effeithio mwy ar rai grwpiau o bobl.

- Sut fydd gwasanaethau os bydd pethau'n newid neu'n aros yr un fath.

- Os oes pethau mae'r GIG neu'r cyngor yn gallu eu gwneud i wneud y newidiadau'n llai drwg.

Efallai na fydd y GIG neu'r Cyngor yn:

- rhoi digon o gyfle i bobl ddweud eu dweud
- meddwl digon am beth mae pobl wedi ei ddweud
- ateb pryderon pobl, neu
- dod o hyd i'r ffordd orau o wneud pethau.

Os bydd hyn yn digwydd, fe fyddwn ni yn dweud wrthyn nhw ac yn gofyn iddyn nhw wneud yn well.

Os dydyn nhw ddim yn gwneud hynny, yna efallai y byddwn ni yn gofyn i Lywodraeth Cymru edrych arnyn nhw.

Mwy o wybodaeth

Rydych chi'n gallu darganfod mwy amdanom trwy:

- Cysylltu â'ch tîm Llais lleol
- Edrych ar ein gwefan: www.llaiscymru.org

Mae'r daflen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Rydych chi'n gallu cysylltu â ni yn Gymraeg neu Saesneg. Fe fydd yn cymryd yr un faint o amser i ni eich ateb yn Gymraeg neu Saesneg.

Os ydych chi eisiau'r ddogfen yma mewn fformat neu iaith wahanol, cysylltwch â ni.

Rydych chi hefyd yn gallu lawrlwytho'r ddogfen yma o'n gwefan:
www.llaiscymru.org

Timau Llais Lleol

Caerdydd a Bro Morgannwg

Yn cynnwys Caerdydd a Bro Morgannwg.

Ffôn: 029 2075 0112

E-bost: cardiffandvaleenquiries@llaiscymru.org

Cwm Taf Morgannwg

Yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Ffôn: 01443 405830

E-bost: cwmtafmorgannwgenquiries@llaiscymru.org

Gwent

Yn cynnwys Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen.

Ffôn: 01633 838516

E-bost: gwentenquiries@llaiscymru.org

Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe

Yn cynnwys Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Ffôn: 01639 683490

E-bost: nptandswansea.enquiries@llaiscymru.org

Timau Llais Lleol

Gogledd

Sir y Fflint, Sir Ddinbych,

Wrecsam, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd.

Ffôn: 01978 356178 / 01248 679284

E-bost: northwalesenquiries@llaiscymru.org

Powys

Yn cynnwys Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Maesyfed.

Ffôn: 01874 624206 / 01686 627632

E-bost: powysenquiries@llaiscymru.org

Gorllewin Cymru

Yn cynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Ffôn: 01646 697610

E-bost: westwalesenquiries@llaiscymru.org

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care